# Crynodeb Ymchwil Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

## Gwerthusiad o effeithiolrwydd Cytundebau Tai Cymunedol

### Cyflwyniad

Cytundebau gwirfoddol yw Cytundebau Tai Cymunedol (CTCau) a sefydlwyd rhwng awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Bwriad CTCau oedd darparu cyfrwng ar gyfer gwaith partneriaeth mwy effeithiol rhwng awdurdodau lleol a chymdeithasau tai ar flaenoriaethau ac amcanion a rennir. Datblygwyd y model ar gyfer CTCau gan Fforwm Landlordiaid Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru ym mis Hydref 1998. Argymhellodd y Fforwm y dylai awdurdodau lleol a chymdeithasau tai Cymru fabwysiadu'r cytundebau.

Ers datblygu'r CTC model ym 1998, mae'r amgylchedd polisi y mae awdurdodau lleol a chymdeithasau tai ill dau yn gweithredu oddi mewn iddo wedi newid yn sylweddol.

Nod y prosiect ymchwil oedd gwerthuso effeithiolrwydd CTCau ac fe'i ymgymerwyd rhwng Mehefin 2005 a Mawrth 2006. Roedd camau allweddol yr ymchwil:

i. adolygiad polisi/llenyddiaeth;
ii. cyfweliadau ffôn gydag awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a rhanddeiliaid allweddol;
iii. cyfweliadau gyda rhanddeiliaid allweddol mewn awdurdodau lleol a chymdeithasau tai mewn chwe ardal astudiaeth achos; ac
iv. ymgynghori gyda rhanddeiliaid allweddol mewn awdurdodau lleol a chymdeithasau tai ar gynigion ar gyfer y ffordd ymlaen.

Mae'r crynodeb gweithredol hwn yn darparu trosolwg o'r canfyddiadau a'r awgrymiadau polisi sydd wedi'u cynnwys yn y prif adroddiad.

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

## Crynodeb o'r Canfyddiadau

Ni ddefnyddir CTCau yn eang - dim ond wyth (36%) o awdurdodau lleol Cymru sydd ag un yn ei le.

Un o'r prif resymau a nodwyd dros beidio â chyflwyno CTCau oedd y lefel o adnoddau sydd ei hangen i ddatblygu a gweithredu cytundeb.

Yn yr ardaloedd hynny lle roedd CTC yn ei le:

- roedd amrywiad yn y partïon i'r cytundeb, yr ymagweddau a fabwysiadwyd i ddatblygu'r cytundebau a'u cynnwys; ac
- ystyriwyd mwyafrif y CTCau yn gatalyddion effeithiol ar gyfer gwella gwaith partneriaeth pan y'u datblygwyd i gychwyn. Dywedodd un awdurdod lleol fod y broses o ddatblygu CTC yn ymwneud ag ysgogi newid a datblygu diwylliant o weithio cydweithredol.

Roedd defnyddioldeb hir dymor CTCau:

- wedi'i bennu gan y broses o ddatblygu'r cytundeb;
- yn tueddu i ddibynnu ar ansawdd yr atodlen, yr oedd yn rhan fwyaf yr achosion yn wan, ac nid oedd tasgau, cyfrifoldebau ac amserlenni yn cael eu nodi yn fanwl; ac
- yn tueddu i ddibynnu ar y trefniadau ar gyfer monitro'r atodlen oedd, yn rhan fwyaf yr achosion, yn wan.

Ymddengys bod tri o'r wyth awdurdod lleol yn ystyried y CTC fel fframwaith ar gyfer dwyn ynghyd a ffurfioli cytundebau a threfniadau partneriaeth presennol.

Gwendid cyffredin y CTCau oedd y ffaith y tueddid eu hystyried yn gorfforaethol fel "cytundebau tai". Mewn arfer, nad oeddent yn "perthyn" i'r awdurdod yn gorfforaethol nac wedi'u clymu i mewn gydag adrannau/cyfarwyddiaethau eraill yr awdurdod lleol.

Ni ymddengys bod gan CTCau effaith arwyddocaol ar waith partneriaeth o gwmpas digartrefedd. Fodd bynnag, mewn un awdurdod lleol lle cafodd perfformiad cymdeithasau tai ei fonitro a'i ddefnyddio i bennu dyrannu grant tai cymdeithasol, adroddwyd bod y cytundeb wedi cael effaith fawr ar ddigartrefedd a gosodiadau.

Ni ymddengys bod effeithiolrwydd gwaith partneriaeth yn dibynnu ar a oes CTC yn ei le. Fodd bynnag, mae'n fwy tebygol y bydd gan awdurdodau lleol gyda CTCau yn eu lle ffurfiau eraill ar gytundebau gweithredol yn eu lle na'r rheiny heb CTCau yn eu lle.

Ymddengys bod gwaith partneriaeth effeithiol yn digwydd yn bennaf o ganlyniad i ddiwylliant y sefydliadau dan sylw, yn enwedig diwylliant yr awdurdod lleol. Ymddengys ei fod yn dibynnu ar gyfres o faterion perthynol fel:

- ymddiriedaeth
- bod yn agored;
- parodrwydd i rannu gwybodaeth a phrofiadau;
- cydnabyddiaeth o sgiliau a galluoedd asiantaethau partner a'r cyfraniad y gall pob parti ei wneud o bosib; a
- pharodrwydd i gynnwys partneriaid, nid wrth gytuno ar ddogfennau yn unig, ond wrth nodi materion y mae angen mynd i'r afael â hwy ac wrth ddatblygu datrysiadau.

Cafodd yr ymchwil lawer o enghreifftiau o fentrau gwaith partneriaeth creadigol a ddatblygwyd yn absenoldeb CTC, neu'r tu allan i drefniadau CTC.

Mae ansawdd yr arweiniad ar CTCau a diffyg arweiniad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ddatblygu a gweithredu CTCau wedi golygu:

- y bu'r defnydd o CTCau yn gyfyngedig;
- nad yw CTCau wedi cyflawni perchenogaeth gorfforaethol;

- cafwyd diffyg cysondeb yn yr ymagweddau tuag at eu datblygu; ac
- mae amrywiad sylweddol yn eu hansawdd a'u cynnwys.

Mae'r diffyg gallu i berfformio'r swyddogaeth dai strategol yn awdurdodau lleol Cymru wedi golygu:

- y bu'r defnydd o CTCau yn gyfyngedig;
- nad yw CTCau wedi cyflawni perchenogaeth gorfforaethol ehangach; a
- chafwyd diffyg cysondeb yn yr ymagwedd tuag at ddatblygu CTCau a'u gweithredu.

## Awgrymiadau Polisi

Mae awduron yr adroddiad yn ystyried y gallai ffurf ddiwygiedig ar gytundeb tai cymunedol chwarae rôl allweddol wrth gryfhau'r swyddogaeth dai strategol a symud yr agenda partneriaeth a gweithio cydweithredol mewn tai ymlaen.

Mae'r adroddiad llawn yn cynnwys cynnig sy'n nodi cyfres o awgrymiadau polisi mewn perthynas â rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru. Maent yn canolbwyntio ar gryfhau swyddogaeth dai strategol awdurdodau lleol a sicrhau bod yr holl gymdeithasau tai yn cyfrannu at amcanion polisi lefel uchel holl awdurdodau lleol Cymru.

Mae'r cynnig yn awgrymu bod Llywodraeth Cynulliad Cymru:

- yn darparu hyfforddiant i aelodau ac uwch swyddogion awdurdodau lleol ar y swyddogaeth dai strategol, mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;
- yn gwneud datblygu ffurf ddiwygiedig ar CTC yn ofyniad i awdurdodau lleol Cymru, drwy wneud ei ddatblygu yn un elfen o'r Cytundeb Polisi a gyd-drafodwyd rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a holl awdurdodau lleol Cymru;
- annog awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i ddatblygu'r ffurf ddiwygiedig ar gytundeb drwy gyflwyno ystod o fesurau fel sefydlu cronfa ar wahân (yn debyg i'r gronfa Grant Rheoli Tai Cymdeithasol), gwneud Grant Tai Cymdeithasol (GTC) ychwanegol ar gael i ardaloedd lle mae cytundeb yn ei le ac yn gweithredu'n effeithiol, ac amlygu arfer positif;
- diwygio arweiniad i awdurdodau lleol ar baratoi'r Strategaeth Gymunedol a'r tri chynllun lefel uchel i atgyfnerthu cyfranogiad cymdeithasau tai yn natblygiad pob un;
- datblygu arweiniad i awdurdodau lleol ar berfformiad effeithiol y swyddogaeth dai strategol, sy'n ymgorffori arweiniad ar ddatblygu a gweithredu ffurf ddiwygiedig o CTC, y dylid ei ailenwi yn "gytundeb partneriaeth cymunedol";
- cynhyrchu arweiniad ar ddatblygu a gweithredu cytundebau partneriaeth cymunedol, sy'n:
  - o argymell bod y cytundeb yn gytundeb cyffredin rhwng pob awdurdod lleol a'r holl gymdeithasau sy'n gweithredu yn yr ardal honno;
  - o argymell y dylid talu sylw gofalus i'r broses a ddefnyddir i ddatblygu cytundebau;
  - o nodi egwyddorion i'w dilyn wrth ddatblygu'r cytundeb a ffurf y cytundeb, ond nid yw'n rhagnodi ffurf fodel ar gytundeb neu broses i'w dilyn wrth ei ddatblygu;
  - o argymell bod y cytundeb yn cynnwys elfennau strategol a gweithredol ac yn nodi cyfrifoldebau priodol awdurdodau lleol a chymdeithasau tai mewn perthynas â'r ddwy elfen hon.

Mae'r adroddiad **Gwerthusiad o effeithiolrwydd Cytundebau Tai Cymunedol - Crynodeb Gweithredol** a chopiau eraill o'r crynodeb ar gael oddi wrth:


Uned Ymchwil a Gwybodaeth
Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful CF48 1UZ

Ffôn: 01685 729131

E-bost: CC&A.ymchwil@cymru.gsi.gov.uk
Gwefan: www.cymru.gov.uk/cyfiawndercymdeithasolacadfywio



G/440/06-07
ISBN 0 7504 4196 4

Rhagfyr
CMK-22-10-050

Cysodwyd mewn teip 12pt


© Hawlfraint y Goron 2006